**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO**

# Datganiad Polisi ar Drin data'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn Ddiogel

## Egwyddorion cyffredinol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn defnyddio gwasanaeth gwirio y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr sy'n dymuno gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer DBS ynghylch trin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu tystysgrifau a gwybodaeth dystysgrif yn gywir. Hefyd mae'n cydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau o dan reoliadau Diogelu Data perthnasol a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â thrin, defnyddio, storio, cadw a gwaredu gwybodaeth dystysgrif yn ddiogel.

Fel rhan o'r rhwymedigaeth hon, mae'r Awdurdod wedi cytuno ar y polisi hwn. Byddwn yn sicrhau bod pob ymgeisydd y gofynnir iddynt gael gwiriad DBS yn ymwybodol o fodolaeth Cod Ymarfer DBS a'r polisi hwn.

Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnod o'r wybodaeth ganlynol:

- dyddiad cyhoeddi tystysgrif
- enw'r pwnc
- math o dystysgrif y gofynnir amdani
- y swydd y gofynnwyd am y dystysgrif ar ei chyfer
- rhif cyfeirnod unigryw y dystysgrif
- a manylion y penderfyniad recriwtio a wnaed.

Ni fydd yr Awdurdod yn cadw unrhyw lungopi na delwedd arall o'r dystysgrif, nac unrhyw gynrychiolaeth o gynnwys y dystysgrif.

## Storio a Mynediad

Cedwir gwybodaeth dystysgrif dim ond lle mae gennym ganiatâd yr ymgeisydd i wneud hynny, a chedwir y wybodaeth yn ddiogel, mewn cynwysyddion storio, na ellir eu cludo, a'u cadw dan glo, â mynediad a reolir yn llym ac sy'n gyfyngedig i'r bobl hynny sydd â hawl i weld y wybodaeth fel rhan o'u dyletswyddau.

## Trin

Yn unol ag adran 124 o Ddeddf yr Heddlu 1997, dim ond i'r rhai sydd ag awdurdod i dderbyn y wybodaeth wrth gyflawni eu dyletswyddau y bydd gwybodaeth dystysgrif yn cael ei throsglwyddo. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn drosedd trosglwyddo'r wybodaeth hon i unrhyw un nad oes ganddo hawl i dderbyn y wybodaeth. Rydym yn cadw cofnod o bawb y mae tystysgrifau neu wybodaeth dystysgrif wedi'u datgelu iddynt.

## Defnydd

Defnyddir gwybodaeth dystysgrif dim ond at y diben penodol y gofynnwyd amdani, ac y rhoddwyd caniatâd llawn yr ymgeisydd ar gyfer hynny.

## Cadw a Gwaredu

Unwaith y bydd penderfyniad recriwtio (neu benderfyniad perthnasol arall) wedi'i wneud, nid ydym yn cadw gwybodaeth dystysgrif am fwy na'r hyn sy’n gwbl angenrheidiol gan roi ystyriaeth lawn i Ddiogelu Data a Hawliau Dynol yr unigolyn. Drwy gydol yr amser hwn, byddwn yn cadw at yr amodau arferol ynglŷn â storio diogel a mynediad a reolir yn llym. Bydd gwybodaeth dystysgrif yn cael ei dinistrio'n briodol drwy ddulliau diogel.

Gorffennaf 2003
Diwygiwyd Rhagfyr 2015